MAI 2023

# CYNNYDD GYDA'R CYNLLUN CYFLENWI AR GYFER CYMRU SY'N OED-GYFEILLGAR: EIN STRATEGAETH AR GYFER CYMDEITHAS SY'N HENEIDDIO

## DADANSODDIAD O'R DATA

## CYFLWYNIAD

Ar gyfer yr adroddiad blaenorol gwnaethom greu Mynegai Heneiddio'r DU i roi mesur sylfaenol o sefyllfa oedolion hŷn yng Nghymru. Datblygwyd y Mynegai cyn datblygu'r strategaeth ac felly bwriadwyd cipio dimensiynau eithaf eang o heneiddio oherwydd, ar y pryd, nid oedd nodau penodol y strategaeth yn hysbys. Roedd Mynegai Heneiddio'r DU yn seiliedig ar y meysydd a nodwyd yn y Mynegai Heneiddio Byd-eang. Fel y trafodwyd yn yr adroddiad blaenorol roedd hefyd yn uchelgais gennym i ddefnyddio Mynegai Heneiddio'r DU i gymharu perfformiad Cymru ar gyfer ei phoblogaeth hŷn gyda gwledydd eraill ledled y byd gan fod y Mynegai Heneiddio Byd-eang yn canolbwyntio ar y DU gyfan, ac nid y gwledydd unigol sy’n rhan ohoni.

Fodd bynnag, penderfynwyd peidio ag efelychu Mynegai Heneiddio'r DU ar gyfer yr adroddiad hwn am ddau brif reswm:

i) mae'n ymddangos na fydd y Mynegai Heneiddio Byd-eang yn cael ei gynhyrchu eto, ac felly ni fyddwn yn gallu edrych ar gymariaethau rhyngwladol â Chymru

ii) ers cyhoeddi'r Strategaeth ry'n ni bellach yn gwybod beth yw'r nodau a oedd yn caniatáu inni nodi dangosyddion mwy penodol a pherthnasol ar gyfer y cyd-destun Cymreig.

Ein cynllun i’r dyfodol yw adolygu'r data a gasglwyd gan wahanol asiantaethau yng Nghymru gyda'r nod yn y pen draw o gyd-gynhyrchu Mynegai Heneiddio yng Nghymru sy'n seiliedig ar ystod ehangach o fesurau a fydd yn caniatáu asesiad llawer mwy manwl o'r graddau y mae'r nodau yn y Strategaeth yn cael eu bodloni.

Cafodd yr adroddiad ei baratoi ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Dr Martin Hyde, Canolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia, Prifysgol Abertawe. Mae Dr Hyde yn aelod o'r Fforwm Cyngor Gweinidogol ar gyfer Heneiddio.

Cesglir y data yn yr adroddiad hwn gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru[1] ac Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 a 2021-22[2]


## DADANSODDIAD

Mae'r data diweddaraf o Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod disgwyliad oes yng Nghymru yn 2018-2020 yn 82 mlynedd i fenywod a 78 mlynedd i wrywod. Roedd y disgwyliad oes iach yn 62 mlynedd i fenywod a 61 mlynedd i wrywod. Fodd bynnag, roedd disgwyliad oes i fenywod ar ei isaf ers 2011-2013. Ar ben hynny, mae'r data'n dangos bod anghydraddoldebau economaidd parhaus mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach yng Nghymru.

Mae disgwyl i fenywod yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig fyw i fod yn 78 oed, a gall y rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig ddisgwyl byw i fod yn 85 oed ar gyfartaledd. Ar gyfer dynion mae'r ffigyrau yn 74 oed ac 82 oed yn y drefn honno. Fel mae ffigur 1 yn dangos, mae'r bwlch mewn disgwyliad oes iach (nifer y blynyddoedd, ar gyfartaledd, y gall rhywun ddisgwyl byw mewn iechyd da) yn 14 mlynedd i fenywod a 13 mlynedd i wrywod. Rhywbeth sy'n peri cryn bryder yw bod Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dweud, er bod y bwlch mewn disgwyliad oes iach ymhlith gwrywod wedi gostwng ers 2015-2017, bod y bwlch wedi cynyddu i fenywod.

**Ffigur 1. Anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes iach yng Nghymru 2018-2020**

[1] https://publichealthwales.shinyapps.io/PHWO_HealthExpectanciesWales_2022/
[2] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llywodraeth Cymru. (2022). Arolwg Cenedlaethol Cymru. [casglu data]. Gwasanaeth Data'r DU. SN: 9011. DOI: http://doi.org/10.5255/UKDA-SN-9011-1




Fel mae tabl 1 yn dangos, mae gwahaniaethau rhanbarthol eithaf eang mewn disgwyliad oes iach ar draws Cymru hefyd. I wrywod mae hyn yn amrywio o 55 mlynedd yn Nhorfaen i 69 mlynedd yn Sir Fynwy. I fenywod mae hyn yn amrywio o 56 mlynedd ym Mlaenau Gwent i 69 mlynedd yn Sir Fynwy.

### Tabl 1. Gwahaniaethau rhanbarthol mewn disgwyliad oes iach yng Nghymru

| | Menywod | Gwrywod |
|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 63.59 | 64.19 |
| **Gwynedd** | 68.10 | 65.05 |
| **Conwy** | 66.01 | 63.41 |
| **Sir Ddinbych** | 65.83 | 63.25 |
| **Sir y Fflint** | 63.95 | 64.22 |
| **Wrecsam** | 63.26 | 63.77 |
| **Powys** | 65.62 | 62.02 |
| **Ceredigion** | 64.17 | 62.62 |
| **Sir Benfro** | 65.75 | 61.76 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 61.83 | 59.75 |
| **Abertawe** | 60.51 | 61.92 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 57.92 | 59.67 |

| | | |
|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 58.24 | 60.16 |
| **Bro Morgannwg** | 64.74 | 61.94 |
| **Caerdydd** | 65.86 | 62.87 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 60.68 | 57.14 |
| **Merthyr Tudful** | 57.00 | 57.67 |
| **Caerffili** | 57.03 | 56.70 |
| **Blaenau Gwent** | 56.46 | 55.65 |
| **Torfaen** | 55.26 | 60.75 |
| **Sir Fynwy** | 69.30 | 68.74 |
| **Casnewydd** | 58.11 | 60.66 |

## IECHYD A LLESIANT

Mae data o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos yn gyffredinol bod gwelliannau bychan wedi bod yn iechyd cyffredinol y boblogaeth hŷn yng Nghymru rhwng 2018/19 a 2021/22. Fel mae ffigur 2 yn dangos, yn 2018/19 roedd 22 y cant o'r rhai sy'n 60 oed a hŷn yn dweud bod eu hiechyd yn dda iawn. Erbyn 2021/22 roedd hyn wedi codi i 25 y cant. Ar ben arall y raddfa roedd y gyfran a ddywedodd bod eu hiechyd yn wael iawn wedi gostwng o 3 y cant i 2 y cant.


**Ffigur 2. Iechyd cyffredinol ymhlith oedolion hŷn yng Nghymru yn 2018/19 a 2021/22.**




Ychydig iawn o newid oedd hefyd yn ymddygiadau iechyd oedolion hŷn rhwng 2018/19 a 2021/22. Fel y dengys ffigur 3 ar y ddau bwynt amser dywedodd tua thraean o oedolion hŷn fod ganddyn nhw 3 ymddygiad iach o fyw, dywedodd tua 20 y cant fod ganddynt 4 ymddygiad iach o fyw ac roedd tua 5 y cant yn adrodd 5 ymddygiad iach o fyw.


**Ffigur 3. Nifer o ymddygiadau iach o fyw (dim smygu, pwysau iach, bwyta 5 ffrwyth neu lysiau, peidio yfed uwchben canllawiau, actif) ymhlith oedolion**

**hŷn.**




Roedd cyfran yr oedolion hŷn a oedd wedi gweld ymarferydd cyffredinol/meddyg teulu am eu hiechyd yn ystod y 12 mis diwethaf wedi gostwng o 80 y cant yn 2018/19 i 60 y cant yn 2021/22 (ffigur 4). Yn ystod yr un cyfnod fe wnaeth cyfran y bobl hŷn a ddywedodd eu bod wedi bod eisiau gweld ymarferydd cyffredinol neu feddyg teulu, ond heb lwyddo i wneud hynny, godi o 9 y cant i 14 y cant. Fodd bynnag, bu ychydig o newid cadarnhaol o ran pa mor rhwydd y mae oedolion hŷn yn dweud eu bod yn gallu cael apwyntiad meddyg ar amser cyfleus. Yn 2018/19, dywedodd 29 y cant o oedolion hŷn eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn cael apwyntiad. Erbyn 2021/22 roedd hyn wedi codi i 35 y cant. Ar ben arall y raddfa gostyngodd y gyfran a ddywedodd ei bod yn anodd iawn o 25 y cant i 19 y cant.


### Ffigur 4. Hwylustod cael apwyntiad ar amser cyfleus



Ond, roedd gostyngiad yn y lefelau bodlonrwydd gyda'r gofal yr oedd oedolion hŷn yn teimlo eu bod yn ei gael gan eu meddyg teulu. Gostyngodd y cyfran a ddywedodd eu bod yn fodlon iawn o 70 y cant yn 2018/19 i 60 y cant yn 2021/22. Ar nodyn mwy cadarnhaol, cododd cyfran yr oedolion hŷn a ddywedodd eu bod yn fodlon iawn gyda'r gofal a gawsant yn yr ysbyty o 77 y cant yn 2018/19 i 84 y cant yn 2021/22.

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol yn llesiant oedolion hŷn rhwng 2018/19 a 2021/22. Cafodd llesiant ei fesur gan ddefnyddio graddfa llesiant y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae’r raddfa hon yn cynnwys 4 eitem: i) Boddhad cyffredinol â bywyd; ii) I ba raddau y maent yn teimlo fod pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil; iii) Hapusrwydd cyffredinol ddoe; a, iv) Pryder cyffredinol ddoe. Yn y data ar gyfer 2018/19 nododd y rhan fwyaf o oedolion hŷn lefelau uchel o lesiant ar draws y pedwar uchod. Mae ffigur 5 yn ystyried lefelau cyffredinol o ran boddhad bywyd, ac yn dangos bod y data yn 2021/22 yn dangos patrwm tebyg.


### Ffigur 5. Gwahaniaethau o ran boddhad bywyd yn gyffredinol rhwng 2018/9 a 2021/22.



## CYSYLLTEDD CYMDEITHASOL


Mae'r data ar lefelau cysylltedd cymdeithasol yn dangos darlun tebyg o sefydlogrwydd cymharol rhwng 2018/19 a 2021/22. Ar bob adeg roedd y mwyafrif o oedolion hŷn yn teimlo bod digon o bobl y gallen nhw ddibynnu arnyn nhw pan fydd ganddyn nhw broblemau, roedd llawer o bobl y gallen nhw ymddiried yn llwyr ynddynt a digon o bobl yr oedden nhw'n teimlo'n agos atyn nhw. Un newid amlwg rhwng y ddau gyfnod oedd y cynnydd yng nghyfran y bobl hŷn a oedd yn dweud eu bod yn colli cael pobl o gwmpas. Fel mae ffigur 6 yn dangos yn 2018/19 dywedodd tua 22 y cant o oedolion hŷn eu bod yn colli cael pobl o gwmpas. Erbyn 2021/22 roedd hyn bron wedi dyblu i 42 y cant.

### Ffigur 6. Ynysigrwydd a chysylltedd cymdeithasol




Efallai nad yw'n syndod o ystyried bod y data wedi'u casglu'n rhannol yn ystod cyfnodau clo Covid-19, y bu gostyngiad sylweddol yng nghyfran yr oedolion hŷn sydd wedi bod i amryw o ddigwyddiadau celfyddydol neu ymweld â safleoedd treftadaeth. Fodd bynnag, ar nodyn mwy cadarnhaol, ni fu gostyngiad mor ddramatig yng nghyfran yr oedolion hŷn a gymerodd ran mewn gweithgareddau artistig a chreadigol yn ystod 2021/22. Er bod y niferoedd yn dal i fod yn gymharol isel, nododd 7 y cant o oedolion hŷn eu bod yn cymryd rhan mewn celfyddydau gweledol a chrefftau (i lawr o 8 y cant yn 2018/19). Yn arolygon 2018/19 a 2021/22 dywedodd 2 y cant o oedolion hŷn eu bod yn gwneud gweithgareddau ysgrifennu creadigol a dywedodd 2 y cant eu bod yn cymryd rhan mewn ffotograffiaeth neu wneud ffilmiau. Dylid nodi hefyd bod cyfran yr oedolion hŷn a ddywedodd fod ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd wedi codi o 78 y cant yn 2018/2019 i 84 y cant yn 2021/2022.


**Ffigur 7: Canran sydd wedi bod i’r digwyddiadau celfyddydol neu leoliadau hanesyddol canlynol yn ystod y 12 mis diwethaf.**




## YMGYSYLLTIAD DINESIG

Bu newid amlwg yn y graddau y mae oedolion hŷn yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan yn y penderfyniadau ynghylch rhedeg eu hawdurdod lleol. Yn y data ar gyfer 2018/19 pobl hŷn oedd fwyaf tebygol o ddweud nad oedden nhw'n teimlo bod ganddyn nhw lais yn yr awdurdod lleol. Dywedodd 40 y cant eu bod yn anghytuno'n gryf a dywedodd 30 y cant eu bod yn tueddu i anghytuno. Erbyn 2021/22 roedd hyn wedi newid a dywedodd 28 y cant eu bod yn tueddu i gytuno eu bod wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch rhedeg eu gwasanaethau awdurdod lleol, sydd i fyny o 12 y cant yn 2018/19. I'r gwrthwyneb, roedd y gyfran a oedd yn anghytuno'n gryf â'r datganiad hwn wedi gostwng i 20 y cant. Yn yr un modd, bu newid cadarnhaol yn y bodlonrwydd cyffredinol y mae oedolion hŷn yng Nghymru yn ei deimlo am Lywodraeth Cymru rhwng y ddau gyfnod. Fel y dengys ffigur 8 yn 2018/9 roedd gan y rhan fwyaf o bobl farn eithaf niwtral am Lywodraeth Cymru. Erbyn 2021/22 rydym yn gweld symudiad amlwg ar y raddfa tuag at fodlonrwydd uchel, gydag oedolion hŷn yn fwyaf cyffredin yn sgorio eu bodlonrwydd gyda Llywodraeth Cymru yn 8 allan o 10.


**Ffigur 8. Bodlonrwydd cyffredinol gyda’r ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n gwneud ei gwaith.**




## AMDDIFADEDD

Ar y cyfan, fel y dengys ffigur 9, mae lefelau amddifadedd unigol yn ddiweddarach mewn bywyd wedi parhau'n gymharol sefydlog rhwng 2018/19 a 2021/22. Fodd bynnag, bu gostyngiad bychan yng nghyfran y rhai a ddywedodd nad oeddent yn bwyta o leiaf un pryd o fwyd a oedd yn eu llenwi bob dydd. Yn 2018/19 dywedodd 38 y cant o'r rhai 60 oed a hŷn nad oeddent yn cael pryd o fwyd a oedd yn eu llenwi. Yn 2021-22, roedd y canran hwn yn 33 y cant. Fodd bynnag, er gwaethaf y symudiad hwn i'r cyfeiriad cywir mae hyn yn dal i olygu bod oddeutu 1 o bob 3 o oedolyn hŷn yn mynd heb bryd sy’n eu llenwi. Ar wahân i hyn, yr unig fesurau eraill o amddifadedd lle'r oedd newid amlwg oedd yr eitemau hynny a oedd yn ymwneud â chyfranogiad cymdeithasol a chwrdd â ffrindiau neu deulu. Fel y nodwyd uchod, o ystyried effaith cyfnodau clo Covid-19, mae'r canlyniadau hyn i'w disgwyl.


### Ffigur 9. Newidiadau mewn lefelau amddifadedd ymhlith oedolion hŷn 2018/19 i 2021/22




## Y GYMRAEG

Yn ddiddorol, mae cynnydd wedi bod mewn cymhwysedd yn y Gymraeg ymhlith oedolion hŷn. Yn 2018/19 dywedodd 21 y cant o oedolion hŷn eu bod yn deall Cymraeg llafar (ffigur 10). Erbyn 2021/22 roedd hyn wedi cynyddu i 27 y cant. Roedd cynnydd hefyd, er yn llai, yn y cyfrannau a oedd yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Mae'r ffigyrau hyn yn adlewyrchu poblogrwydd cynyddol dysgu Cymraeg yn ystod y pandemig. Yn ôl Duolingo, Cymraeg oedd yr iaith a dyfodd gyflymaf yn 2020.

### Ffigur 10. Cynnydd mewn sgiliau Cymraeg ymhlith oedolion hŷn 2018/19 a 2021/22




### Ffigur 11. Amlder siarad Cymraeg

